# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 20 Ionawr 2026 |
| **Pwnc:** | Diogelu Corfforaethol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Dyfed Wyn Jones | Aelod portffolio ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Fôn Roberts | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Sian Peacock | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adrodd i Aelodau gan roi trosolwg o berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Sgriwtini herio a chraffu ar waith a pherfformiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Bydd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn arwain ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Bwrdd Corfforaethol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Ar ôl archwilio'r wybodaeth a gyflwynwyd ac adolygu datblygiadau dros y 12 mis diwethaf, gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys yr Adroddiad Diogelu a cheisio sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau Diogelu Corfforaethol yn llawn.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae Atal a Diogelu wedi'u rhestru yn y Cynllun Corfforaethol 2023-28 fel un o Egwyddorion Cyffredinol allweddol y Cyngor

***Mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae cyfrifoldeb ar bob gwasanaeth a gweithiwr yn y cyngor i ddiogelu pobl, beth bynnag yw eu rôl neu eu teitl. Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed."***

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1.Hyfforddiant
2. Cydweithio amlasiantaethol
2. Cynllun cyfathrebu diogelu

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn diffinio diogelu fel hyn:

> ***"Atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon"***

Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth, canllawiau statudol a Chodau Ymarfer yng Nghymru, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynorthwyo staff mewn gwahanol asiantaethau a ledled Cymru i gymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau diogelu yn eu hymarfer. Maent yn darparu cyngor ynglŷn â nodi ac ymateb i bryderon am blant unigol sydd mewn perygl ac oedolion sydd mewn perygl. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn gallu ymateb i bryderon diogelu am blant ac oedolion unigol, mae angen gweithio i sicrhau fod gwasanaethau, lleoedd a mannau yng Nghymru yn atal risgiau ac yn hyrwyddo diogelwch.

Mae gan Gynghorau rôl statudol hanfodol bwysig o ran diogelu plant ac oedolion ac mae ganddynt gyfrifoldeb allweddol i arwain ar atal cam-drin plant a hyrwyddo eu llesiant. Ni all diogelu fod yn wirioneddol effeithiol oni bai ei fod yn cael ei ymgorffori ym mhob Cyfarwyddiaeth, Adran a Thîm o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan bawb - yn weithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr ac Aelodau Etholedig ran i'w chwarae o ran amddiffyn plant ac oedolion bregus rhag niwed, boed hynny yn y cartref, neu du allan i'r cartref.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| N/A |

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| N/A |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| N/A |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Niwtral |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| N/A |

## 9. Atodiadau

- Newyddlen Diogelu
- Cylch Gorchwyl Bwrdd Diogelu Corfforaethol
- Hyfforddiant Prevent
- Llythyr Swyddfa Cartref re Gwiriad Sicrwydd Blynyddol "Prevent"

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Sian Peacock |